# PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 8 RHAGFYR 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McKerlich(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells, Hyde, Stubbs a/ac Keith Jones |

## 28 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Elaine Simmons.

## 29 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau

## 30 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 31 : CYNLLUN GWEITHREDU A STRATEGAETH TWRISTIAETH CAERDYDD: 2015 - 2020

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Phil Bale (Arweinydd), Terry Stephens (Stephens Associates – yn cynghori'r Cyngor ar agweddau ar Bolisi Twristiaeth) a Heledd Williams (Pennaeth Twristiaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a chadarnhaodd y gwneir cynnydd o ran y Strategaeth Dwristiaeth a'r Cynllun Gweithredu. Mae mentrau newydd wedi eu cyflwyno, er enghraifft, Cerdyn Ymwelydd Caerdydd sydd wedi bod ar werth, ond yn amlwg mae llawer mwy i'w wneud er mwyn gweithredu'r agenda. Fel prifddinas, mae gan Gaerdydd rôl ehangach, nid yn unig dros y rhanbarth ond dros Gymru gyfan.

Clywodd Aelodau gyflwyniad gan Heledd Williams yn rhoi newyddion am y cynnydd a wnaed o ran y strategaeth a'r cynllun gweithredu.

Dywedodd Terry Stephens wrth Aelodau ei bod yn bwysig pwysleisio ar bwysigrwydd canolbwyntio ar ymweliadau dros nos. Mae hi'n sylfaenol bwysig o ran gyrru'r economi a chyrraedd yr amcanion cyffredinol. Mae llawer wedi ei gyflawni ond mae llawer eto i'w wneud. Mae buddion diriaethol, mwy o breswylwyr a chyfraddau ystafelloedd wedi eu cyflawni. Mae digwyddiadau mawr dros y ddwy flynedd nesaf a bydd y digwyddiadau hyn yn cynnig llwyfan er mwyn hybu twf pellach a hyrwyddo twristiaeth. Er bod lefelau'r twf wedi eu cynnal dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n parhau i fod dan lefelau twf 3 neu 4 dinas arall. Mae'r gystadleuaeth am dwristiaeth yn anferthol. Mae'n bwysig cadw ffocws ar y strategaeth dwristiaeth a chreu partneriaethau a chydweithio mwy cryf a chael arweiniad cadarn er mwyn gweithredu'r strategaeth.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Rhoddwyd gwybod i aelodau mai un o’r pethau pwysicaf i fynd i’r afael ag o wrth ddatblygu yw sicrhau eglurder o ran beth y mae Caerdydd yn ei gynrychioli a beth sydd ganddi i’w gynnig.

- Holodd y Pwyllgor ynghylch y rhyngweithio rhwng swyddogion yn gosod y strategaeth a’r Aelodau Etholedig a rhoddwyd gwybod iddynt bod gosod fframwaith uchelgeisiol wedi bod yn angenrheidiol a bod hynny'n golygu cymryd risg o bryd i'w gilydd, ond mae'n rhaid i'r risgiau hynny fod yn rhai a reolir.

- Nid oes gan Gaerdydd adnoddau di bendraw, felly pan ddaw syniadau arloesol fel y Bêl Enfawr, mae eu heffaith yn wych.  Mae cyfyngiadau ar gadw rhai o’r eitemau hyn, er enghraifft doedd y deunydd a ddefnyddiwyd ar gyfer y Bêl Enfawr ddim yn parhau am hir felly roedd yn anodd ei gynnal.

- Holodd Aelodau a oedd unrhyw fylchau o ran digwyddiadau y dylai Caerdydd fod yn rhan ohonynt a rhoddwyd gwybod y bydd adolygiad trylwyr o'r rhestr ddigwyddiadau bresennol dros y 3 i 5 mlynedd nesaf.  Mae trafodaethau’n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ynghylch math y digwyddiadau.  Nid oes gan Gaerdydd yr adnoddau y mae eu hangen i weithredu’r strategaeth ei hun, mae angen gweithio gydag eraill er mwyn creu'r cyfleoedd gorau oll a chael y canlyniadau gorau.

- Gofynnwyd i Aelodau am newyddion am y sefyllfa bresennol o ystyried diddymu Twristiaeth y Brifddinas-Ranbarth.

- Rhoddwyd gwybod i aelodau bod cynrychiolaeth rhanbarthol er bod Llywodraeth Cymru wedi dod â’r timau’n fewnol, i Croeso Cymru.  Mae’r ffrwd ariannu’n well; mae rhagor o fuddsoddi a llai o gostau allanol.  Mae hi hefyd yn angenrheidiol ceisio sicrhau nod yw awdurdodau'n cystadlu â’i gilydd.  Mae angen gweledigaeth a strategaeth ar y cyd.

- Holwyd Aelodau am effaith digwyddiad fel Cwpan Rygbi’r Byd ar ffigyrau a rhoddwyd gwybod bod patrwm pan ddaw digwyddiad mawr i’r ddinas, o ran ymweliadau preswyl, er enghraifft.  Fodd bynnag, mae’n bwysig asesu pa ddigwyddiadau sydd yn berthnasol ac yn gynaliadwy er mwyn sicrhau ein bod yn osgoi sefyllfa lle rydym yn gloddesta/newynu.  Mae hi hefyd yn angenrheidiol sicrhau bod y digwyddiadau’n gytbwys; mae digwyddiadau diwylliannol fel arfer yn atynnu pobl sy’n aros am 3-4 noson ond ymweliadau unnos yn unig a geir yn sgil digwyddiadau chwaraeon.  Roedd Aelodau’n awyddus i wybod beth oedd y patrwm sylfaenol yn gysylltiedig â chynnydd mewn twristiaeth, wedi diystyru ffigyrau’r digwyddiadau.  Dywedodd TS bod agor gwesty newydd yn effeithio gymaint ar y ffigyrau ag y mae un digwyddiad.

- Dywedodd y Cadeirydd wrth swyddogion bod y Pwyllgor wedi derbyn llythyr gan Reolwr y Royal Hotel, Caerdydd.

- Gofynnwyd i Swyddogion fynd i’r afael â’r materion hynny.  Dywedodd y Swyddogion y cawsant gyfarfod gyda’r Rheolwr lle mynegodd yntau ei

bryderon ac yr ymdrinnir ag y rheiny nawr fesul achos. Eglurodd Swyddogion y nodwyd hefyd bod angen i berchnogion gwestai gymryd cyfrifoldeb dros sut y maent yn cystadlu'n fewnol yn y farchnad a sicrhau nad ydynt yn dilyn dull gweithredu gloddesta/newynu.

CYTUNWYD – y bydd Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a'r swyddogion perthnasol ar ran y Pwyllgor yn diolch iddynt am fynychu'r cyfarfod ar 8 Rhagfyr ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

32 : PROJECT PARC CEFN ONN

Croesawodd y Cadeirydd Bob Derbyshire (Aelod Cabinet – Amgylchedd), Jon Maidment (Rheolwr Gweithredol – Parciau a Chwaraeon) a Rosie James (Prif Swyddog Tirlunio) i'r cyfarfod.

Clywodd Aelodau gyflwyniad ar y Project gan Jon Maidment  Rosie James.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd Aelodau pa waith a wneir gydag ysgolion lleol yn y ddinas.

- Dywedodd y Swyddogion mai'r cynllun yw cynnal trefniant ysgol goedwig/awyr agored a darparu deunydd y gall ysgolion eu defnyddio. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd gyda Gwasanaeth Wardeniaid Cymunedol, sydd eisoes yn cynnig rhai gweithgareddau yn y parc. Mae Swyddog Addysg Parc Bute hefyd yn ymwneud â'r project ac mae hi wedi derbyn hyfforddiant ysgol goedwig.

- Roedd Aelodau'n falch o weld bod Cyfeillion Parc Cefn Onn yn parhau i ymwneud llawer â'r project a holont a oedd Diverse Cymru hefyd yn cymryd rhan. Dywedodd y Swyddogion nad oeddent ar hyn o bryd; roedd nifer o bartneriaid yn cymryd rhan ac er y bu cysylltiad gyda chadeirydd y grŵp, nid oeddent yn rhan ar hyn o bryd, ond gallai hynny newid yn y dyfodol.

- Roedd Aelodau am gael sicrwydd nad plant ysgolion lleol a theuluoedd lleol yn unig a fyddai'n elwa o'r parc ond rhai o ardaloedd mwy difreintiedig Caerdydd hefyd.

- Dywedodd yr Aelod Cabinet bod Parc Cefn Onn yn wahanol i'r rhai eraill a bod y mynediad yn un o'r gwahaniaethau hynny. Y nod yw cynnig cyfleusterau i ddinasyddion Caerdydd a thu hwnt. Dylai fod yn barc ymweld.

- Holodd Aelodau a oedd digon o finiau cŵn a dywedwyd wrthynt os yw'r pêl-droed yn cynyddu fel y digwydd, bydd angen sicrhau bod trefniadau priodol. Mae hi'n bwysig cynnig cyfleusterau priodol i bobl â chŵn - efallai y dylid cynnig barrau cŵn yn y safle. Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod y safle yn un o'r rhai a ystyrir ar gyfer Gorchymyn Diogelu Ardal Gyhoeddus. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Chyfeillion Parc Cefn Onn i ddatblygu cod ymddygiad ar gyfer defnyddio'r parc ac yna annog pobl i gerdded yn gall â'u cŵn. Mae'r syniad o ddynodi bod yn rhaid i berchnogion cŵn eu cadw ar dennyn mewn rhai ardaloedd yn y parc dan ystyriaeth.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y broblem â’r Rhododendron wedi ei datrys a chawsant wybod y cododd y broblem eto dros yr haf ond ei bod wedi ei rheoli.

- Ni fu’n angenrheidiol atal mynediad na gofyn i bobl gadw cŵn ar dennyn.

- Holodd Aelodau a fyddai angen cau’r parc o gwbl tra bydd gwaith yn mynd rhagddo a chawsant wybod y gobeithir mai rhannau yn unig a fydd ar gau pan fydd mathau o waith yn digwydd.

CYTUNWYD – y bydd Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a’r swyddogion perthnasol ar ran y Pwyllgor yn diolch iddynt am fynychu’r cyfarfod ar 8 Rhagfyr ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

33 : CHWARTER DAU 2016/17: MONITRO PERFFORMIAD GWASANAETHAU (CYFARWYDDIAETH CYMUNEDAU, TAI A GWASANAETHAU CWSMERIAID)

Croesawodd y Cadeirydd Peter Bradbury (Aelod Cabinet – Datblygu Cymunedol, Cydweithrediadau a Mentrau Cymdeithasol), y Cynghorydd De’Ath (Aelod Cabinet – Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu) a Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau) i’r cyfarfod.

Gofynnwyd i Aelodau sylwi nad oedd y Gyfarwyddiaeth wedi derbyn Atodiad G Adroddiad Rheoli Perfformiad, diweddariad ar y Bartneriaeth Hamdden, ac felly nid oedd modd i Aelodau ei ystyried fel rhan o’r dogfennau. Sicrhaodd yr Aelod Cabinet yr Aeloda nad oedd y gwleidyddion yn dal yr wybodaeth yn ôl. Mynegodd y Pwyllgor ei siom nad oedd yr Atodiad hwnnw ar gael ar hyn o bryd ond dywedodd nad oedd hi'n fwriad clywed cyflwyniad am y testun yn y cyfarfod hwn.

Rhoddwyd trosolwg i’r Aelodau ar berfformiad Chwarter 2.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Holodd Aelodau a gadwyd at y dyddiadau targed ar gyfer agor yr hybiau, a chadarnhawyd hynny ac eithrio pan fu problemau TGCh yn Ystum Taf a Gabalfa.

- Gofynnodd Aelodau am fanylion unrhyw strategaeth er mwyn mynd i’r afael â phroblemau a ddaw i’r amlwg trwy’r cyfryngau cymdeithasol.

- Dywedodd y Swyddogion eu bod yn defnyddio cyfrif Twitter y Cyngor, fodd bynnag, mae gan bob Hyb ei gyfrif Facebook ei hun a ddefnyddir i roi gwybodaeth ddiweddar oherwydd ei fod yn ffynhonnell wybodaeth boblogaidd. Serch hynny, mae'n bwysig sicrhau nad yw materion sensitif yn dod i'r amlwg dros y cyfryngau cymdeithasol ond does dim angen i rai o'r atebion fod mor sych. Mae'n bwysig nodi bod cyfrif Twitter Caerdydd yn cael ei fonitro gan aelod staff ac nad yw wedi ei ddylunio i ymdrin â gwaith achos sensitif, ac nid yw'r wybodaeth a geir trwyddo bob tro'n ddigon manwl. Mae Aelodau Etholedig wedi derbyn hyfforddiant ynghylch manteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

- Holodd Aelodau ynghylch hyd y cytundeb a roddwyd i'r grŵp gwirfoddol sy'n gweithredu'r caffi yn Hyb Ystum Taf. Dywedodd y Swyddogion bod cymalau torri yng nghytundeb trwydded y caffi, fel yr holl gytundebau eraill, a bod y trwyddedau wedi eu rhoi am gyfnod o 12 mis yn gychwynnol.

- Holodd yr Aelodau a yw'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd i'w cael yn yr Hybiau.

- Dywedwyd, gan gyfeirio'n arbennig at Hyb STAR, y dosbarthwyd taflenni cyn y lansio a bod gair yn cynghori pobl i fynd i Hyb STAR ar waelod llythyrau Budd-daliadau a Thai. Bydd y llythyr budd-daliadau yn hyrwyddo'r hyb sydd agosaf at dderbynnydd y llythyr.

CYTUNWYD – y bydd Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a'r swyddogion perthnasol ar ran y Pwyllgor yn diolch iddynt am fynychu'r cyfarfod ar 8 Rhagfyr ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

34 : GWASANAETHAU I MEWN I WAITH A GWIRFODDOLI

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd De'Ath (Aelod Cabinet dros Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu), Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau) a Helen Evans (Rheolwr Cynghori) i'r cyfarfod.

Bu i'r Cadeirydd wahodd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ategodd hwnnw fod y gwasanaethau hyn yn bwysig, eu bod yn gyffredinol ac y gellid cael mynediad iddynt trwy'r ddinas.

Rhoddodd Helen Evans gyflwyniad i'r Aelodau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod Butetown, Grangetown a Glan-yr-Afon yn glwstwr daearyddol agos.

- I ddechrau, roedd y project yn derbyn arian gan Gronfa Cymdeithasol Ewrop a'r syniad oedd y byddai'n cael ei gynnal trwy'r 4 clwstwr Cymunedau'n Gyntaf, ond mae wedi ei roi i'r Cyngor ei weithredu bellach.

- Holodd yr Aelodau beth sy’n digwydd i ymateb i bryder preswylwyr nad yw hon yn ymdrech deg i helpu ac y cânt eu gwthio i ymgeisio am swyddi anaddas eto fyth. Dywedodd y Swyddogion bod y gwasanaeth i Mewn i Waith yn wirfoddol; mae’r nifer sy’n ei ddefnyddio’n cynyddu ac mae pobl yn deall bod hon yn ymdrech ddilys i helpu. Bu adborth gan bobl a oedd yn chwilio am waith yn dda.

- Holodd y Pwyllgor a oedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Diverse Cymru a chawsant wybod bod gwaith yn mynd rhagddo gydag ystod lawn o sefydliadau partner.

- Roedd Aelodau’n teimlo ei bod yn bwysig cydnabod y gwirfoddolwyr a chawsant wybod bod gwobrau, ciniawa, eu bod yn derbyn gwisgoedd gwaith a ad-dal am gostau.

- Gofynnodd Aelodau am wybodaeth o ran yr her fwyaf ar hyn o bryd a thros y cyfnod 12 mis nesaf. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai'r cap budd-daliadau sydd yn debygol o roi'r her fwyaf gan yr effeithir ar dros 1000 o deuluoedd, a'r her fydd ceisio eu cael i mewn i waith; yn aml maent ymhell iawn o'r farchnad waith. Bydd materion eraill hefyd, megis anghenion dwys.

- Holodd y Pwyllgor ynghylch y gwasanaeth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill gan gyfeirio’n benodol at nifer y teuluoedd sy’n cyrraedd yr ardal o Syria.

- Dywedodd Swyddogion bod gwasanaeth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn broblem fawr yng Nghaerdydd. Nid yw’r gwasanaeth yn ehangu yn gyfatebol i’r galw ar hyn o bryd.

CYTUNWYD – y bydd Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a’r swyddogion perthnasol ar ran y Pwyllgor yn diolch iddynt am fynychu’r cyfarfod ar 8 Rhagfyr ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

35 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor yr Economi a Diwylliant ddydd Iau 12 Ionawr 2017 am 4.30 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm